# ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU

18fed o Dachwedd 2021

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS Iau 18fed o Dachwedd 2021
Ar Lein  AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Rory Francis (Cadeirydd)
Erwyn Jones
Bedwyr Gwilym

Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:
Glyn Daniels
Annwen Daniels

**1. Derbyn Ymddiheuriadau**

Ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Glyn Daniels a Annwen Daniels.

**Argymell:** Derbyn yr ymddiheuriadau.

**2. Datganiad Buddiant Personol**

**Eitem 6 – Cesisadau Cynllunio** Cynghorydd Rory Francis Ddatgan Buddiant Cais Cynllunio C21/1060/03/LL ( ar fwrdd llywodraethwyr Ysgol Maenofferen)

**3. Adroddiadau Misol y Caeau Chwarae.**

Bu i'r Pwyllgor drafod yr adroddiadau.

**Argymell:** Derbyn yr adroddiadau

**4. Trafod copiau draft arolwg Misol I Gardd Encil, Tir o amgylch Cae Baltic a Sgwâr Oakeley a Chofgolofn Llan a Rhiw**

Bu i'r Pwyllgor drafod y draft arolwg misol ychwanegol.

**Argymell**: .  Y Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig bod y Clerc neu Ddirprwy Glerc yn cyd-arwyddo'r adroddiadau i brofi fod yr adroddiadau wedi eu darllen. Mae Gardd Encil a Chofgolofn Rhiw angen i addasu - dim gwair a dim mainc yng nghof Golofn Rhiw. Bu i'r Dirprwy Glerc rhoi gwybod bod Helen Jones, sydd yn archwilio'r caeau chwarae yn fisol, yn hapus i wneud yr archwiliadau ychwanegol. Bu i'r Pwyllgor ofyn i wirio pa mor aml mae'r de-fibs yn cael i archwilio gan swyddog Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru.

**5. Diweddariad am Geisiadau Grant**

Bu i'r Clerc rhoi gwybod bod y Cyngor Tref wedi bod yn llwyddiannus yn ennill grant gan Parc Cenedlaethol Eryri i gael offer Zip Wire newydd i Gae Bryn Coed. Bydd y Cyngor yn trio am grant gan gronfa Cist Cyngor Gwynedd am offer newydd i'r Parc erbyn 22ain o Dachwedd.

**Argymell**: I dderbyn y wybodaeth. Bydd i'r Pwyllgor drafod edrych ar offer cadw yn heini i oedolion yn y dyfodol.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

Bu i'r Cynghorydd Rory Francis Ddatgan Buddiant Cais Cynllunio C21/1060/03/LL ( ar fwrdd llywodraethwyr Ysgol Maenofferen)

*1. C21/1060/03/LL*

*Ysgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog, LL41 3DL*

*Adeiladu meithrinfa ac ardal chwarae gysylltiedig / Construct a nursery and associated play area*

<https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=32336&language=cy>

**Argymell**: Bu i'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym gynnig bod y Cyngor Tref yn croesawu'r datblygiad ond mae aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu ynglŷn â phryderon y datblygiad oherwydd mae gardd a choeden goffa ar y safle i gofio am gyn disgybl. Mae'r Cyngor Tref angen fwy o wybodaeth ynglyn a'r lleoliad , i wirio na fydd y datblygiad yn tramgwyddo'r ardd goffa ac ni fydd unrhyw goeden sydd wedi eu plannu er cof am ddisgybl yn cael i dorri. Bu i'r Cynghorydd Erwyn Jones eilio'r cynnig.

*2. C21/1063/03/LL*

*The Little Bookshop, 1 Ffordd Newydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TU*

*Newid defnydd o gyn siop i uned wyliau / Change of use from former shop to holiday let*

<https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=32340&language=cy>

**Argymell**: Bu i'r Pwyllgor drafod y cais. Dim gwrthwynebiad oherwydd mae'r adeilad yn wag ac angen atgyweiriad ac adnewyddiad, mae yn ganol y dref felly bydd yn dda i'r busnesau cyfagos, ac mae'r adeilad yn rhy fach i ddatblygu'n dy i annedd lleol.

**7. Diweddariad gan y Dirprwy Glerc**

Trafodaeth gyda Dref Werdd ynglyn a chydweithio ar ymgyrch ysbwriel/ailgylchu

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Dref Werdd, bu nifer o syniadau cael i drafod,

-cynnal cystadleuaeth casglu bagiau o ysbwriel/ailgylchu,

-trafod y pwysigrwydd o ailgylchu yn yr ysgolion lleol.

- cysylltu gyda busnesau lleol yn gofyn iddynt ddefnyddio cynwysyddion bwyd a diod fioddiraddadwy neu gynllun peilot fel y mae Cyngor Tref y Wyddgrug wedi eu neud o'r enw "Naked Takeaways", lle mae busnesau yn defnyddio cynwysyddion sydd yn gallu cael i ail ddefnyddio gan eu cwsmeriaid. Mae'r cynllun yma yn y Wyddgrug wedi lleihau faint o ysbwriel sydd yn y dref ac wedi lleihau costau prynu cynhwysyddion i fusnesau.

- cael biniau ail gylchu yn pob cae chwarae a chael ysgolion lleol i greu llun lliwgar fydd yn gallu cael i drosglwyddo ar finyl i roi o amgylch y biniau, gyda'r gobaith bydd hyn yn annog plant a thrigolion lleol i ddefnyddio'r biniau, fydd yn fwy amlwg gyda gwaith celf liwgar.

**Argymell**: Bu i'r Pwyllgor drafod a chytuno i gyd weithio gyda'r Dref Werdd a chael prisiau biniau ail gylchu i'r caeau chwarae. Y Dirprwy Glerc i gael prisiau gan gwmnïau sydd yn casglu ailgylchu, oherwydd ydi Criccieth Cleaning yn cynnig y gwasanaeth yma.
Bu i'r Pwyllgor drafod yr angen i gryfhau Polisi Amgylcheddol y Cyngor, a chynnwys argyfwng hinsawdd a natur.

<u>Stensil i'r biniau halen</u>

Bu i'r Pwyllgor drafod dyfynbris y stensil.

**Argymell**: Bu i'r Pwyllgor cytuno i'r Dirprwy Glerc archebu'r stensil.

<u>Llochesi bws Llan</u>

Bu i'r Dirprwy Glerc rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod cyflwr y llochesi bws yn Llan Ffestiniog mewn cyflwr dadfeilio ac angen gwaith atgyweirio brys.

**Argymell**: Bu i'r Pwyllgor drafod y mater a chytuno i`r Dirprwy Glerc ofyn am ddyfynbris gan y Swyddog Cynnal a Chadw.

<u>Diweddariad Bwrdd gwybodaeth Sgwâr Diffwys</u>

Bu i'r Dirprwy Glerc rhoi gwybod i'r Pwyllgor ei bod yn aros am ddyfynbrisiau am fwrdd gwybodaeth. Bod Swyddog Cyngor Gwynedd wedi rhoi gwybod bod ychydig o gyllid ar ôl ac o bosib ar gael i dalu am y bwrdd gwybodaeth. Mae angen ychydig mwy o ymchwil ynglyn a chael hawlfraint i ddefnyddio lluniau ac mae trafodaeth wedi bod gyda Chymdeithas Hanes Bro Ffestiniog ynglyn a gwybodaeth hanesyddol y Sgwâr.

**Argymell**: I dderbyn y wybodaeth.

## <u>8. Clwb Ieuenctid</u>

Bu i'r Pwyllgor drafod bydd rhaid gofyn i Gyngor Gwynedd am adroddiad misol o'r niferoedd o blant sydd yn mynychu a gweithgareddau sydd yn cael i gynnig. Mae'r ieuenctid yn awyddus i

gael disgo dolig, a bydd y Cyngor yn trefnu cludiant. Posibilrwydd o drefnu gweithgaredd gyda'r Clwb Camera a gofyn i'r ieuenctid dynnu lluniau o'r ardal i'r Cyngor gael rhoi ar dudalen Facebook a hwyrach calendr.

**Argymell:** I gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn am adroddiad misol a gofyn barn am ba weithgareddau byddai'r ieuenctid efo diddordeb yn.

**9. Diweddariad Tan y Manod**

Bu i'r Pwyllgor drafod diweddariad Tir Tan y Manod. Bydd rhaid rhoi swm yn y presept i wneud gwaith fel codi ffens a mynediad saff. Y Dirprwy glerc i yrru cynlluniau a chostau gan Dref Werdd ymlaen i gynghorwyr fydd ar y gweithgor. Bu trafodaeth am yr angen i gael swyddog prosiect. Mae angen arweiniad i wneud y gwaith.

**Argymell:** Trefnu cyfarfod drwy Zoom i'r rhoi diweddariad i'r gwirfoddolwyr, bydd rhaid cael cyfieithydd. Cysylltu efo Dan i ofyn a oedd o yn gallu bod yn swyddog prosiect i roi arweiniad.

**10. Llythyr yn gofyn am gymorth ariannol gan Gymdeithas Archeoleg Bro Ffestiniog**

Bu i’r Pwyllgor drafod llythyr gan Gymdeithas Archeoleg Bro Ffestiniog yn gofyn am gymorth ariannol a llythyr o gefnogaeth i gais grant.

**Argymell:** I drafod y cais cymorth ariannol yn cyfarfod llawn or Cyngor ym mis Rhagfyr, ond i yrru llythyr o gefnogaeth yn eu cais grant.

**11. Llythyr Cefnogaeth I Gais Llechi Cymru am nawdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol**

Bu i’r Pwyllgor drafod y cais am lythyr cefnogaeth i gais Llechi Cymru.

**Argymell:** Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig bod y Cyngor yn cefnogi’r cais a Chynghorydd Bedwyr Gwilym yn eilio.

**12. Anfoneb gan Lafar Bro hysbyseb Coeden Goffa**

Bu i’r Pwyllgor drafod yr anfoneb gan Lafar Bro.

**Argymell:** I dalu'r anfoneb eleni, ond bydd rhaid i Bwyllgor Coeden Goffa rhoi cais i'r Cyngor am rodd ariannol flwyddyn nesaf at unrhyw hysbyseb.

**13. Unrhyw fater brys**

Ysgoloriaeth Patagonia

Mae Hanna Gwyn, enillydd 2019/2020 a Gari Jones, enillydd 2020/2021 wedi cysylltu yn nodi eu bod yn gobeithio teithio i Batagonia yn Hydref 2022.

**Argymell:** I ryddhau cyllid yr ysgoloriaeth, sydd yn £ 1750 yr un, er mwyn trefnu'r daith.

<u>Clwb Clinc</u>

Mae'r Clwb wedi cysylltu yn gofyn am eu cyfraniad, sydd wedi cael eu cymeradwyo.

**Argymell:** I ryddhau'r cyllid i Glwb Clinc.

<u>Neuadd Llan Ffestiniog.</u>

Bu i'r Pwyllgor drafod diddordeb sefydliad Bruhn Morris i brynu'r adeilad. Mae cynrychiolydd or sefydliad wedi cysylltu gyda'r Cyngor Tref a Phwyllgor y Neuadd.

**Argymell:** Bydd rhaid cael gwybodaeth ynglyn ac amodau oedd yn y cytundeb prynu rhwng y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd. Bydd y Cyngor Tref yn cefnogi penderfyniad Pwyllgor Neuadd Llan. Os mai eu penderfyniad ydi gwerthu, bydd rhaid neud yn siŵr fod yn amod yn y gwerthiant fod yr adeilad yn parhau i fod o ddefnydd y gymuned yn Llan. Gan mai elusen ydi'r Neuadd, bydd rhaid gwirio fod yr ymddiriedolwyr, sydd ar wefan y Comisiwn Elusennau, yn gyfredol. Bydd rhaid cael cyngor cyfreithiol, sydd yn arbenigo yn y maes elusennau os oes mod d trosglwyddo ymddiriedolaeth i sefydliad Bruhn Morris, sydd yn golygu byddai'r elusen yn parhau. Bydd cyfarfod o Bwyllgor Neuadd Llan ar 6ed o Ragfyr 2021 am 1.30yp, a bydd cynrychiolydd o Gyngor Tref Ffestiniog yn bresennol. Bydd y Cyngor Tref yn cefnogi penderfyniad Pwyllgor Neuadd Llan.

Cyfarfod i ben am 9yh.